CYNGOR CYMUNED LLANNON COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Tymbl
Heol y Neuadd
Y Tymbl
Sir Gaeryrddin
SA14 6HR

Ffon: 01269 841213

e-bost:
llannonccclerk@outlook.com

Tumble Hall
Heol y Neuadd
Tumble
Carmarthenshire
SA14 6HR

Tel: 01269 841213

e-mail:
llannonccclerk@outlook.com

website/wefan : www.ccllannon.org.uk

15/03/22

DATGANIAD I'R WASG CYLLIDEB 2022/2023 & PRAESEPT

Mae Cyngor Cymuned Llannon yn falch o gyhoeddi na fydd cynnydd yn y praesept y gofynnwyd amdano ar gyfer 2022/2023. Mae hyn i gydnabod y cynnydd mewn costau byw. Fodd bynnag, bydd y cyngor yn dal i allu cynnig rhai cyfleoedd cyflogaeth newydd y mae aelodau'n gobeithio y bydd pobl leol yn ymgeisio amdanynt.

Cynhelir ymgynghoriadau cyhoeddus ar ddatblygu cymunedol yn ddiweddarach yn y flwyddyn; bydd uwchraddio maes chwarae Cross Hands yn flaenllaw yn hyn. Mae'r cyngor yn ymwybodol o'r cynnydd yng nghostau deunyddiau felly mae wedi neilltuo £15,000 pellach i'r prosiect hwn gan ddod â chyfanswm ei gyfraniad i £50,000. Gobeithir cael cyllid pellach trwy grantiau oddi wrth wahanol gyrff.

Yn ogystal â'r gwaith uwchraddio a wnaed yn ddiweddar y tu mewn i Neuadd y Tymbl, mae'r cyngor yn bwriadu gwneud gwelliannau i'r tu allan ar ddiwedd y gwanwyn/dechrau'r haf.

Mae'r cyngor yn edrych ymlaen at drefnu mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol i blant yn ystod gwyliau'r ysgol, gan ddechrau gyda Diwrnod Hwyl y Pasg ym Mharc Y Mynydd Mawr ar 14eg Ebrill, 2022. Bydd hyn yn cael ei hysbysebu'n fuan.

Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach am hwn neu unrhyw fater arall yn ymwneud â Chyngor Cymuned Llannon, cysylltwch â'r Clerc ar 01269 841213 neu e-bostiwch llannonccclerk@outlook.com

Y Cynghorydd Michael Jones
Cadeirydd Cyngor Cymuned Llannon